



*cutting through complexity™*

# Contractio a Chaffael

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Gorffennaf 2012

**Y personau cyswllt yn KPMG  
ar gyfer yr adroddiad hwn  
yw:**

**Ian Pennington**

*Cyfarwyddwr*

Ffôn: 029 2046 8087

[ian.pennington@kpmg.co.uk](mailto:ian.pennington@kpmg.co.uk)

**David Locke**

*Rheolwr*

Ffôn: 0118 964 2235

[david.locke@kpmg.co.uk](mailto:david.locke@kpmg.co.uk)

Cyflwynir yr adroddiad hwn i'r Cyngor a chafodd ei baratoi at ddefnydd y Cyngor yn unig. Ni chymerwn unrhyw gyfrifoldeb dros unrhyw aelod o staff sy'n gweithredu yn eu rolau unigol, na thros drydydd partïon. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cyhoeddi dogfen ar y teitl "Datganiad o Gyfrifoldebau'r Archwilwyr a benodir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r cyrff y maent yn eu harchwilio (2010)". Mae hon yn crynhoi cyfrifoldebau'r archwilwyr o'r dechrau i'r diwedd a'r hyn a ddisgwyliir gan y corff sy'n cael ei archwilio. Tynnwn eich sylw at y ddogfen hon.

Nid yw archwilwyr allanol yn gweithredu i ddisodli cyfrifoldeb y corff sy'n cael ei archwilio i roi trefniadau priodol yn eu lle i sicrhau y cyflawnir busnes cyhoeddus yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu ac eglurhad yn cael ei roi am ei wario, a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

Os oes gennych unrhyw bryderon neu os ydych yn anfodlon ag unrhyw ran o waith KPMG, yn y lle cyntaf dylech gysylltu ag Ian Pennington sef cyfarwyddwr ymgysylltu'r Awdurdod, fydd yn ceisio datrys eich cwyn. Os ydych yn anfodlon â'r ymateb a gewch, ffoniwch Virginia Stevens ar 029 2046 8009, neu e-bostiwch [virginia.stevens@kpmg.co.uk](mailto:virginia.stevens@kpmg.co.uk), sef y partner cyswllt cenedlaethol ar gyfer holl waith KPMG gyda Swyddfa Archwilio Cymru. Ar ôl hyn, os ydych yn dal i fod yn anhapus a sut y cafodd eich cwyn ei drin, gallwch gysylltu â'r Rheolwr Ymchwilio Cwynion yn Swyddfa Archwilio Cymru drwy ffonio 02920 320500 neu e-bostio [complaints@wao.gov.uk](mailto:complaints@wao.gov.uk). Gallwch hefyd ysgrifennu at y rheolwr ymchwilio cwynion yn 24 Ffordd yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd CF11 9LJ.

**Mae'r Cyngor yn perfformio'n anghyson o ran caffael a chontractio cyflenwyr allanol. Yng nghyswllt rhai o wasanaethau'r Cyngor, mae angen gwella sawl agwedd ar y broses. Nid yw'r Cyngor bob amser yn gallu dangos ei fod wedi rhoi gwerth am arian.**

**Rydym wedi gwneud nifer o argymhellion blaenoriaeth uchel.**

## Rhagarweiniad

Mae'r Cyngor yn achosi cyfran helaeth o'i wariant drwy gyflenwyr allanol, sy'n amrywio o brynu eitemau bach untro'n unig i brosiectau adeiladu cyfalaf mawr. Mae gan y Cyngor amrywiol weithdrefnau a mesurau rheoli, gan gynnwys tendro, rheoli contractau, monitro a mesurau i reoli trafodion ariannol. Dyluniwyd y gweithdrefnau a'r mesurau hyn i ddiogelu arian y Cyngor, i sicrhau bod y nwyddau a'r gwasanaethau iawn yn cael eu prynu, i roi gwerth am arian ac i roi cyfrif priodol am y costau.

O ganlyniad i orwario ar rai prosiectau cyfalaf mawr, fel y gorwariant sylweddol ar y Bont Reilffordd newydd ym Maesdu Road, a nifer o faterion yn codi gyda chontractau eraill, gwnaethom gytuno gyda'r Cyngor i adolygu ei weithdrefnau contractio. Rydym wedi pwysu'n drwm ar waith a wnaed gan adran archwilio mewnol y Cyngor a chyfeiriwn at adroddiadau archwilio mewnol lle bo hynny'n berthnasol.

## Sgôp yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r prif ddarganfyddiadau a wnaed yn dilyn:

- ein hadolygiad o brosesau contractio a chaffael y Cyngor o dan y Mesur Llywodraeth Leol ac o dan ein cyfrifoldebau ar Ddefnyddio Adnoddau.
- ein gwaith, mewn ymateb i ymholiadau a godwyd gan etholwr lleol, ar Bont Maesdu Road a phrosiectau cyfalaf mawr eraill.

## Cydnabyddiaeth

Hoffem achub ar y cyfle hwn i ddiolch i'r swyddogion a'r Aelodau am eu cymorth a'u cydweithrediad parhaus drwy gydol ein gwaith archwilio, ac yn enwedig y cymorth a gawsom gan yr Adain Archwilio Mewnol.

## Crynodeb

Mae'r Cyngor yn perfformio'n anghyson. Mae rhai contractau'n cael eu cymhwyso'n gywir a cheir rhai enghreifftiau o ymarfer da,

(fel y prosiect diweddar ym Mharc Eirias). Fodd bynnag, mae angen gwella ar sawl agwedd ar y broses contractio, gan gynnwys sut mae gweithdrefnau'n cael eu cymhwyso ar gyfer amryw o wasanaethau'r Cyngor. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cydymffurfio'n well â gweithdrefnau tendro a gofynion cyfreithiol y Cyngor
- Rheoli contractau mawr yn well.

Rydym wedi gwneud nifer o argymhellion blaenoriaeth uchel yn yr adroddiad hwn.


Mae'r Cyngor ei hun eisoes wedi cymryd camau i wella rhai o'r prosesau hyn, gan gynnwys drwy sefydlu fforwm prosiectau a rhaglenni newydd i reolwyr, cyflwyno hyfforddiant i reolwyr sy'n canolbwyntio ar wireddu manteision o gaffael allanol, agwedd fwy haearnidd gan uwch-swyddogion ynghylch cydymffurfio, a chyfres o archwiliadau mewnol o feysydd risg. Mae gan y Cyngor waith sylweddol i'w gwneud o hyd, fodd bynnag, cyn y gall fod yn ffyddiog bod yr holl wariant trydydd parti'n cael ei gaffael, ei reoli a'i fonitro yn y ffordd fwyaf darbodus, effeithlon ac effeithiol.

## Casgliadau penodol ynghylch gwrthwynebiadau

Mae etholwr lleol wedi ymarfer ei hawl i wneud gwrthwynebiadau i'r archwilwyr allanol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) yn gofyn inni gyhoeddi Adroddiad Lles y Cyhoedd o dan Adran 22 o'r Ddeddf. Rydym wedi ystyried yr opsiwn hwn yn ofalus oherwydd nifer, maint a gwerth y materion a nodwyd yn ystod yr adolygiad hwn. Penderfynwyd peidio â chyhoeddi adroddiad lles y cyhoedd ar y seiliau:

- y bydd yr adroddiad hwn ar gael i'r cyhoedd ac yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Archwilio'r Cyngor;
- bod y Cyngor wedi comisiynu gwaith sylweddol gan yr archwilwyr mewnol, a nifer fawr o argymhellion o ganlyniad; a
- bod y Cyngor yn cyflwyno mesurau gyda'r bwriad o wella'r sefyllfa.

Mae angen i'r Cyngor asesu pam fod polisiau a gweithdrefnau canolog a chilir, a galwadau corfforaethol i gydymffurfio, yn cael eu dilyn yn anghyson yn achos rhai gwasanaethau. Mae angen iddo wedyn fynnu ar gydymffurfio.



Mae dylunio, cael gaffael ar a darparu gwaith neu nwyddau gan gyflenwyr trydydd parti yn digwydd mewn sawl cam. Mae manylion y camau hyn a faint o waith sydd angen i'r Cyngor ei wneud yn dibynnu ar gymhlethdod a gwerth y contract dan sylw.

Yn yr adran yma, crynhown y darganfyddiadau a'r casgliadau ynghylch sut mae'r Cyngor yn perfformio ym mhob un o'r camau uchod, a gwnawn nifer o argymhellion. Mae'r adroddiad hwn a gwaith yr archwilwyr mewnol yn cynnwys nifer fawr o argymhellion, pob un wedi'i gefnogi gan risg, methiant neu faes lle mae diffyg cydymffurfio.

**Argymhelliad R1 – Mae angen i'r Cyngor asesu pam nad yw polisiau a gweithdrefnau canolog a chilir a galwadau corfforaethol i gydymffurfio yng nghyswllt contractio a chaffael yn cael eu dilyn gan amryw o swyddogion unigol yn eu gwasanaethau. Mae angen i'r Cyngor asesu ai problem gynefino, hyfforddiant, arweinyddiaeth, rheolaeth neu orfodi yw hyn – neu bob un o'r rhain – a chymryd camau priodol i reoli'r sefyllfa'n well.**

**Mae Rheolau Sefydlog a Chod Ymarfer y Cyngor ar Gontractau'n cynnig fframwaith da, ond mae angen eu glywi.**

### Polisiau a Rheolau Sefydlog

Mae gan y Cyngor dwr o bolisiau a gweithdrefnau ffurfiol sydd wedi eu dylunio i dywys staff drwy'r prosesau caffael a chontractio. Y prif bolisiau yw:

- Cyfansoddiad, Rheoliadau Ariannol a Chynllun Dirprwyo'r Cyngor, sy'n nodi pa unigolion a phwyllgorau sydd â'r hawl i wneud penderfyniadau gan ddibynnu ar natur a maint y penderfyniad;
- Rheolau Sefydlog ar Gontractio (dyddiad cyhoeddi Mehefin 2007) sy'n nodi'r fethodoleg ar gyfer caffael nwyddau a gwasanaethau. Eu nod yw sicrhau effeithlonrwydd, tryloywder ac atebolrwydd a mynnir y safonau uchaf o onestrwydd gan bob swyddog ac aelod. Mae'r Rheolau Sefydlog ar Gontractio'n llywodraethu'r lefelau gwariant disgwyledig lle mae angen cael tendrau / dyfynbrisiau ysgrifenedig ar gyfer y gwaith, faint o ddyfynbrisiau sydd angen eu cael, a hefyd y weithdrefn ar gyfer delio â'r tendrau hyn. Mae gweithdrefnau ysgrifenedig, clir yn bwysig i sicrhau bod cyflenwyr yn cael tegwch wrth gystadlu, a hefyd i leihau unrhyw risg o gydgyllwynio neu dwyll.
- Y Cod Ymarfer ar Gontractio (dyddiad cyhoeddi Mehefin 2007) sy'n cefnogi'r Rheolau Sefydlog ar Gontractio.

Yn gyffredinol, credwn fod y Rheolau Sefydlog a'r Cod Ymarfer ar Gontractio'n cynnig fframwaith da i helpu'r Cyngor i reoli ei gontractau â thrydydd partion.

Ers cyhoeddi'r Rheolau Sefydlog a'r Cod Ymarfer ar Gontractio, mae newidiadau wedi bod yn yr amgylchedd y mae'r Cyngor yn gweithredu oddi mewn iddo fel y pwysau mwy gan Lywodraeth Cymru i gynghorau gydweithredu â'i gilydd a gyda chyrrff cyhoeddus eraill.

Un o brif nodweddion amgylchedd rheoli cryf yw cydymffurfio â pholisiau a gweithdrefnau. Os daw'r Cyngor yn ymwybodol o unrhyw faes lle mae diffyg cydymffurfio, mae angen iddo fynnu ar gydymffurfio neu adolygu'r polisi. Er enghraifft, nodwyd fel rhan o'n gwaith ardystio grantiau yn 2009 nad oedd rhai contractau gofal cymdeithasol yn cael eu hail-dendro mor aml â'r hyn sy'n ofynnol o dan y Rheolau Sefydlog ar Gontractio. Roedd y contractau hyn yn rhai i ddarparu gofal i bobl

agored i niwed a barn resymol y swyddogion oedd y byddai'r gwasanaeth iawn yn cael ei ddarparu drwy sicrhau parhad y darparwr gofal. Ar y pryd, ein hargymhelliad oedd bod y Cyngor yn adolygu'r Rheolau Sefydlog ar Gontractio i gynnwys yr amgylchiad hwn – ar y sail os oedd polisi'n amhriodol neu'n anymarferol y dylid, felly, ei ddiwygio yn hytrach na chaniatáu diffyg cydymffurfio. Nid yw'r newid hwn wedi'i wneud, ond mae'r Cyngor yn asesu, achos wrth achos, pob achos lle mae'r gwasanaeth yn gwyro oddi wrth y Rheolau Sefydlog ar Gontractio.

Fel ymarfer gorau dylid adolygu'r rhain o bryd i'w gilydd, sicrhau bod yr amrywiol derfynau'n dal yn briodol tra'n adlewyrchu unrhyw newidiadau i strwythurau a rolau.

**Argymhelliad R2 – Dylai'r Cyngor adolygu ei Reolau Sefydlog a'i God Ymarfer ar Gontractio'n rheolaidd i sicrhau:**

- eu bod wedi eu diweddarau i adlewyrchu'r amgylchedd presennol,
- i gywiro unrhyw anghysondebau amlwg o ran eu gweithrediad, ac
- i ymateb i unrhyw bwyntiau dysgu a godwyd yn yr adroddiad hwn ac yn yr Adroddiadau manwl gan Archwilwyr Mewnol dros y ddwy flynedd diwethaf. Y Tim Caffael

Mae tîm caffael canolog ar gael i helpu gwasanaethau. Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau erbyn hyn yn gofyn am gyngor ganddynt, er nad yw'n ofynnol.

**Argymhelliad R3 – Dylai uwch-swyddogion ystyried gorfodi'r defnydd o'r swyddogion caffael arbenigol hyn gyda phob penderfyniad prynu mawr.**

Mae'r Cyngor wedi profi effeithiau annisgwyl o ganlyniad i gomisiynu a dylunio contractau.

## Cefndir

Mae comisiynu a dylunio gwasanaeth yn creu'r sylfaen ar gyfer yr hyn y gall y Cyngor ddisgwyl ei gael o'i gontractau. Mae'n bwysig ystyried yr holl opsiynau eraill a nodi'n glir beth mae'r Cyngor am ei gyflawni. Mewn rhai sefyllfaoedd, gall fod yn fuddiol teimlo'r dŵr yn y farchnad cyn caffael yn ffurfiol, fel bod swyddogion ac aelodau'n dod i ddeall beth sydd gan y farchnad i'w gynnig, ac i roi pob cyfle i'r cyflenwyr ganfod atebion arloesol a chost-effeithiol i anghenion y Cyngor. Dangosir pa mor bwysig yw comisiynu cadarn yn yr astudiaethau achos canlynol gan y Cyngor:

### Pont Reilffordd Maesdu Road


Roedd y Cyngor wedi cydnabod bod angen pont newydd oherwydd safonau cynnal a chadw a diogelwch gwael y bont bresennol a'r gwyradau yr oedd angen i'r gwasanaeth bws lleol eu dilyn. O ganlyniad, aseswyd y bont i fod yn flaenoriaeth uchel yn y rhaglen gyfalaf. Roedd y Cyngor wedi cael cynnig cyllid Grant Trafnidiaeth gan Lywodraeth Cymru na fyddai efallai wedi bod ar gael pe bai'r gwaith wedi cael ei ohirio. Roedd hyn yn rhan bwysig o benderfyniad y Cyngor i symud ymlaen (gweler y siart).

### Yr angen am gymorth arbenigol

Roedd yn glir i'r Cyngor bod angen peirianwyr arbenigol i ddylunio'r bont, felly aeth y Cyngor ati i gyflogi cwmni cenedlaethol amlwg i gynhyrchu'r dyluniadau. Roedd y rhain yn gamau priodol yn y broses gontractio. Fodd bynnag, nid oedd y cynlluniau amlinellol ar gyfer y contract yn cynnwys rhai costau oedd wedi eu rhagweld (fel y gwasanaeth bws newydd) a chafwyd problemau gweithredol eraill yn ystod cam adeiladu'r contract. Mae hyn yn awgrymu na chafodd y gyllideb a'r cynlluniau eu hadolygu na'u monitro'n ddigonol wrth i'r prosiect ddatblygu. Roedd y Cyngor wedi rhoi'r contract ar gyfer y cyngor dylunio ar sail yr amser a achoswyd gan y peirianwyr, yn hytrach na phris sefydlog am y contract. Mewn ôl-ddoethineb, roedd hyn yn gwneud y gost yn anodd i'r Cyngor ei rheoli ac mae'r Archwilwyr Mewnol wedi nodi hyn fel ffactor a gyfrannodd at orwariant ar y prosiect.

**Argymhelliad R4 –Cyn penderfynu ar gwrs gweithredu, dylai'r Cyngor asesu achos busnes cyffredinol gan gynnwys yr holl gostau ymylol y tu allan i rai'r prif gontract. Dylid cynnwys uwch-swyddogion addas, mae'n debyg o nifer o ddisgyblaethau ar draws y Cyngor, yn yr adolygiad diwydrwydd dyladwy o'r achos busnes.**

Ffynonellau ariannol



Mae'r Cyngor wedi profi effeithiau annisgwyl o ganlyniad i gomisiynu a dylunio contractau.

### **Defnyddio staff Asiantaeth i gasglu ysbwriel**

Roedd swyddogion y Cyngor wedi cydnabod yn 2008 bod ei raglen gwerthuso swyddi barhaus yn creu risg i'r Cyngor os oedd am gyflogi casglwyr ysbwriel newydd ar sail y telerau a'r amodau presennol. Er mwyn lleihau'r risg, penderfynodd y Cyngor lenwi'r swyddi fel rhai dros dro, ac er mwyn lleihau'r costau gweinyddol, penderfynodd logi'r holl staff gan un asiantaeth.

Gallwn ddeall pam fod hyn yn opsiwn deniadol a rhesymol o bersbectif dylunio contract a'i fod yn ddull arloesol o gynnig gwerth am arian. Roedd rhesymau da dros ddefnyddio staff asiantaeth yn lle staff parhaol, oherwydd bod hyn yn edrych ar yr effaith tymor canolig a thymor hir o logi pobl tra oedd y fframwaith cyflogau'n dal heb gael ei benderfynu'n derfynol. Fodd bynnag, cododd broblemau wedyn ynghylch sut oedd y Cyngor yn gweithredu'r cynllun (gweler 8) a risgiau a wireddwyd fel yr amser annisgwyl a gymrodd i gwblhau'r rhaglen gwerthuso swyddi.

### **Cyd-gaffael system etholiadau**

Cyflawnodd y Cyngor gyd-broses gaffael gyda Chynghorau Wrecsam a Sir y Fflint ar gyfer system etholiadau TG newydd. Pan agorwyd y bidiau, roedd y sgoriau caffael yn awgrymu y dylai'r contract fod wedi cael ei roi i fid oedd yn sylweddol ratach na'r bidiau eraill, er nad oedd yn cynnig rhai agweddau hollbwysig ar y system, fel yr iaith Gymraeg. Yn briodol, penderfynodd y Cyngor atal y broses fidio a chymrodd gamau eraill i gontractio'n allanol ar ôl derbyn cymeradwyaeth ffurfiol gan y Cabinet. Mae gan bob un o'r tri chyngor eu system eu hunain bellach, ac ni wnaeth y broses o anghenraid sicrhau'r arbedion maint y byddid wedi eu cael gyda thendr cydweithredol. Atal y caffael oedd y peth iawn i'w wneud yn yr amgylchiadau, ond mae'r Cyngor yn cydnabod mewn ôl-ddoethineb y dylai'r tendr fod wedi cynnwys trothwyon ansawdd gofynnol clir.

**Argymhelliad R5– Wrth ddylunio contractau a dogfennau tendro, dylai'r Cyngor asesu a oes trothwyon ansawdd neu safonau gwasanaeth gofynnol yn eu lle, lle byddai unrhyw fethiant i'w cyflawni'n golygu gwrthod bid.**

**Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r Cyngor yn rhoi contractau mawr allan i dendr yn unol â deddfwriaeth a'i reolau sefydlog ei hun ar contractio, ond ceir enghreifftiau lle na ddigwyddodd hyn a lle nad yw'r Cyngor yn gallu dangos cydymffurfio na gwerth am arian.**

### **Cydymffurfio â'r Rheolau Sefydlog ar Contractio**

Yn gyffredin â phob corff sector cyhoeddus, mae'r Cyngor dan orfodaeth i gydymffurfio â gofynion deddfwriaeth i hysbysebu ei gcontractau mwyaf drwy broses tendro Ewropeaidd (a elwir yn aml yn OJEU – Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd). Rhaid i'r Cyngor hefyd ddangos iddo sicrhau'r gwerth gorau am arian (nid o reidrwydd drwy'r pris rhataf) wrth ddyfarnu'r prosiectau mawr hyn a hefyd gyda phob contract y mae'n ei roi.

Mae'r camau i sicrhau gwerth am arian yn wahanol gan ddibynnu ar werth y contract – ar gyfer y rhai lleiaf, mae'n gwneud synnwyr defnyddio naill ai cyflenwr cymeradwy neu edrych yn anffurfiol ar ddau neu dri chyflenwr ar-lein neu mewn catalogau, neu drwy ofyn am bris llafar. Byddai gwneud mwy'n golygu buddsoddi'n aneffeithlon mewn amser a chost weinyddol i'r Cyngor ac i'r darpar gyflenwyr. Yr egwyddor sylfaenol yw y dylai cystadlu annog cyflenwyr i wella ansawdd eu cynnig a lleihau pris eu bid.

Felly, mae gan Gonwy fel cyrff cyhoeddus eraill gyfres o Reolau Sefydlog ar Contractio (gweler XXX) sy'n gosod allan y gwahanol drefniadau tendro yn ôl pris y contract. Profodd y Cyngor dri-deg o dendrau a ddaeth i law yn 2010/11 i weld a ddilynwyd y rheolau sefydlog ar contractio. Nid yw'r broses hon, ynnddo'i hun, yn asesu gwerth am arian, yn hytrach bod y Cyngor yn gweithredu'n unol â'i brosesau, a ddylai helpu i hyrwyddo gwerth am arian.

Gyda'r dendrau a brofwyd, cawsom fod dau faes lle nad oedd y prosesau cywir yn cael eu dilyn. Yn gyntaf, pan dderbynnir dendrau dylid eu hanfon mewn amlenni wedi eu selio a'u hagog ond ar ôl y dyddiad cau yng ngŵydd dau swyddog. Mewn dau achos, nid oedd unrhyw dystiolaeth bod dau swyddog wedi bod yn bresennol pan agorwyd y dendrau. Hefyd o dan weithdrefnau'r Cyngor, rhaid i aelod fod yn bresennol pan fydd gwerth disgwyliedig y tendr yn fwy na £100k. Ni ddigwyddodd hyn mewn un achos yn y sampl o dendrau. Yn yr achos hwn, roedd gwerth disgwyliedig y tendr yn £3m.

Rydym eisoes wedi adrodd y ddau argymhelliad yma i'r Pwyllgor Archwilio fel rhan o'n harchwiliad blynyddol ar gyfer 2010/11.

### **Rhestr o gyflenwyr cymeradwy**

Mae sefydliadau'n defnyddio rhestr o gyflenwyr cymeradwy i brynu rhai gwasanaethau, lle bo'n briodol gwneud hynny. Y nod yw cael ystod o gyflenwyr sydd ar gael yn fyr rybudd, sydd wedi cytuno i delerau ac amodau'r Cyngor, sydd wedi pasio trothwyon ansawdd, diogelwch, amrywiaeth a phrofiad ac sydd â chardiau prisiau wedi eu cytuno arnynt.

Yn dilyn cwestiwn inni gan aelod o'r cyhoedd ynghylch faint o gcontractwyr adeiladu a chynnal a chadw oedd y Cyngor yn eu defnyddio, cyflawnodd yr Adran Archwilwyr Mewnol adolygiad o waith yr Adran Cynnal a Chadw Adeiladau. Yn yr adran hon, caiff aseiniadau eu dyrannu i wahanol fusnesau sydd ar restr o gyflenwyr cymeradwy. Nododd yr adolygiad nifer sylweddol o wendidau a daeth i'r casgliad bod yr amgylchedd rheoli'n anfodddhaol. Roedd y gwendidau'n cynnwys ansawdd y gwaith oedd yn cael ei ddarparu, diffyg rheoli costau, rheolaeth wael o'r rhestr cyflenwyr, dethol o'r rhestr cyflenwyr, a diffyg cydymffurfio â'r Rheolau Sefydlog ar Contractio.

Mae'r Cyngor wedi dechrau gweithredu ar yr argymhellion. Er enghraifft, mae'r Archwilwyr Mewnol wrthi'n gweithio â'r Rheolwr Cynnal Eiddo a Chyfleusterau i benderfynu sut orau i becynnu'r gwaith, gyda golwg ar gychwyn ymarfer cystadleuol erbyn mis Medi 2012. Fodd bynnag, mae argymhellion eraill yn dal i eistedd ar y fainc, ac ni chawsom unrhyw amserlen ar gyfer pryd fydd hyn wedi'i gwblhau.

**Argymhelliad R6 – Dylai'r Cyngor weithredu'r camau a osodir allan yn adroddiadau'r Archwilwyr Mewnol yng nghyswllt prosesau tendro a chaffael. Dylai uwch-swyddogion asesu i weld a ydyw rhaglen newid pob adran ar y trywydd iawn ac a ydyw'r amserlen yn ddigon uchelgeisiol. Fel mater o drefn, dylid gofyn i uwch-swyddogion gyfiawnhau eu hymateb i argymhellion archwilio i aelodau'r Pwyllgor Archwilio.**



Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r Cyngor yn rhoi contractau mawr allan i dendr yn unol â deddfwriaeth a'i reolau sefydlog ei hun ar gontractio, ond ceir enghreifftiau lle na ddigwyddodd hyn a lle nad yw'r Cyngor yn gallu dangos cydymffurfio na gwerth am arian.

**Argymhelliad R7 – Dylai'r Cyngor gyflawni adolygiad o'r gwariant ar gynnal a chadw ad hoc i sicrhau gwerth gwell am arian. Dylai'r adolygiad hwn ystyried yr holl ddulliau eraill posibl o gyflawni 'mân waith' – o ddefnyddio'r rhestri presennol o gyflenwyr cymeradwy a chyflogi tîm cynnal a chadw bychan i gontractio'r holl waith yn allanol, gan roi sylw dyledus i werth am arian a bod angen i'r Cyngor wario arian o fewn ei derfynau sirol ei hun. Cydymffurfio â deddfwriaeth Ewropeaidd**

Fel a ddisgrifir ar dudalen 6, penderfynodd y Cyngor lenwi swyddi i gasglu ysbwriel gyda staff asiantaeth a defnyddio staff o un Asiantaeth tra oedd yn cwblhau ei brosiect gwerthuso swyddi. Roedd gwerth y staff asiantaeth oedd i'w chaffael yn ansicr ar y pwynt hwn, oherwydd ni wyddai'r 'Gwasanaethau Asiantaeth' fel gwasanaethau Rhan B o dan y ddeddfwriaeth bresennol ac, felly, nid ydynt yn ddarostyngedig i'r rheolau chaffael Ewropeaidd llawn o dendro cystadleuol ar draws yr Undeb Ewropeaidd.

Bu'r Cyngor yn ystyried defnyddio Asiantaeth oedd wedi'i chaffael o dan drefniant fframwaith gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Roedd y fframwaith hwn wedi'i gyflawni o dan reolau chaffael yr OJEU ac ar gael i unrhyw gyngor o Gymru ei fabwysiadu. Roedd gan swyddogion bryderon ynghylch y trefniant fframwaith hwnnw, gan gynnwys y ffaith na fyddai'r gwasanaeth yn darparu'n union beth oedd ei angen ar y Cyngor ac na fyddai felly'n cynnig gwerth da am arian. Penderfynodd swyddogion negodi ag Asiantaeth arall, a allai gynnig y gwasanaeth "iawn" am bris is na'r fframwaith.

Roedd cyfanswm y swm a dalwyd i'r Asiantaeth lwyddiannus rhwng 2006/07 a 2010/11 dros £11m, gyda gwariant pellach yn 2011/12. (Mae rhywfaint o hwn yn wariant ar staff cynnal a chadw tir dros dro).

Ni all y Cyngor ddangos iddo sicrhau gwerth am arian o'r gwariant hwn. Mae'r Cyngor yn casglu'n gywir iddo brynu'r gwasanaeth oedd ei angen arno am lai o arian nag y byddai wedi'i dalu o dan fframwaith yn cydymffurfio â rheolau'r UE. Fodd bynnag, heb gystadlu am brisiau rhwng asiantaethau i ddarparu lefel benodol o wasanaeth, ni all y Cyngor fod yn sicr iddo ennill y gwerth gorau am yr arian.

Deallwn fod y Cyngor wedi bod yn ystyried sefydlu "asiantaeth fewnol" i recriwtio staff dros dro ers 2009, ond hyd yma nid oes penderfyniad pendant wedi'i wneud ynghylch symud ymlaen ar hyn neu beidio. Mae'r Cyngor am ddod i gasgliad ar ba mor ymarferol fyddai hyn cyn rhedeg ymarfer tendro llawn, oherwydd gallai hyn brofi i fod yn ateb mwy cost-effeithiol.

**Argymhelliad R8 – Dylai'r Cyngor adolygu ei holl gontractau mawr a'i drefniadau prynu i sicrhau ei hun eu bod yn darparu gwerth am arian.**

Deallwn fod y Cyngor yn bwriadu adolygu pob opsiwn ar gyfer darparu'r gwasanaeth hel ysbwriel, gan gynnwys parhau gyda'r gwasanaeth mewnol, cydweithredu â chynghorau eraill neu drwy gontractio'n allanol. Gallai fod cyfle hefyd i gyfuno trefniadau fel y rhai ar gyfer casglu gwastraff tŷ, ailgylchu a gwaredu gwastraff. Deallwn fod yna gynllun gweithredu amlinellol i gyflawni'r dadansoddiad opsiynau hwn. Yn ddiweddar, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cyhoeddi adroddiad, sydd ar gael ar eu gwefan, sy'n disgrifio sut mae cynghorau eraill yng Nghymru'n ymdrin â'r mater hwn.

**Mae'r Cyngor wedi rheoli rhai contractau cyfalaf mawr yn wael, ond gall bwyntio i ganlyniadau gwell gyda phrosiectau mwy diweddar.**

**Mae rhywfaint o le i sicrhau bod contractau'n cael eu gweinyddu'n fwy effeithlon.**

### Cefndir

Pan fydd y Cyngor yn cychwyn trefniant cytundebol, mae angen iddo gyflawni nifer o weithgareddau i sicrhau bod y cyflenwr yn darparu'r hyn a fwriedir am y pris a gytunwyd arno. Mae'r rhain yn cynnwys mesur, monitro ac adrodd ar berfformiad ariannol a di-ariannol, ac adolygu canlyniadau. Bydd hyn yn helpu'r Cyngor i gymhwyso'r gwersi a ddysgir wrth berfformio contractau i dendrau dilynol ar gyfer y gwasanaeth. Gwnaethom ddefnyddio'r tair astudiaeth achos ganlynol i ddeall gweithdrefnau darparu prosiectau:

- Pont Maesdu Road - tudalen 14
- Pwll Nofio Llandudno - tudalen 18
- Ysgol y Goedwig – tudalen 19.

Cyflawnwyd ychydig o waith mwy cyffredinol hefyd ar sut mae'r Cyngor yn cytuno ar gontractau ac yn ymdrin â materion gweinyddol fel anfonebau.

Mae'r Cyngor wedi gwneud rhai gwelliannau i'w brosesau. Er enghraifft, roedd prosiect Parc Eirias yn cynnwys tîm aml-ddisgyblaeth o amryw o wahanol wasanaethau, gan lwyddo i gyfrannu mwy o her wrth i'r prosiect symud ymlaen. Y prosiect mawr presennol yw datblygiad Ysgol y Gogarth, sydd â chyllideb o tua £20m. Mae swyddogion yn adrodd ar gynnydd gydag Ysgol y Gogarth i'r Grŵp Gweithredol pob pythefnos, fel y gellir craffu'n fanwl a herio penderfyniadau a chanlyniadau.

### Gweinyddu contractau

Lle mae'r Cyngor yn defnyddio cyflenwyr trydydd parti i gyflawni gwaith, mae'n bwysig bod pob parti'n deall beth sydd angen ei ddarparu, faint fydd y Cyngor yn ei dalu, a sut fydd perfformiad yn cael ei fesur a'i reoli. Fel gyda thendro, bydd faint fydd y Cyngor yn ei reoli ar y cyflenwr yn dibynnu ar gost a phwysigrwydd y gwasanaethau sy'n cael eu darparu. Gyda darnau mwy o waith, dylid sicrhau bod contractau ffurfiol clir yn eu lle ynghyd â mesurau rheoli perfformiad gweithredol, targedau cytun a threfniadau cytun ar gyfer amrywio prisiau y naill ffordd neu'r llall.

Gydag aseiniadau neu gyflenwadau nwyddau llai, gellir eu rheoli dim ond drwy ddyfynbris gwreiddiol, nodyn dosbarthu wedi'i lofnodi ac anfoneb prynu.

Edrychwyd ar wariant y Cyngor ar drydydd partion yn 2010/11, wedi'i ddiol yn ôl cyflenwyr. Adolygwyd y rhestr o'r cyflenwyr mwyaf, eu trafod gyda swyddogion, cyn dethol rhai o'r cyflenwyr i'w profi'n fwy manwl. O reidrwydd, dim ond cyfran gymharol fach o'r gwariant blyneddol a adolygwyd. Adolygwyd dogfennau prosiect, contractau ac anfonebau a thrafodwyd gwariant gyda swyddogion perthnasol gan gyfeirio at waith mwy manwl gan yr Archwilwyr Mewnol.

Bu inni nodi rhai materion sydd â'r potensial i rwystro sicrhau gwerth am arian, a'u hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Medi 2011.

Dylai'r Cyngor adolygu ei bolisiâu ar logi a monitro staff asiantaeth a staff dros dro.

### Gweithwyr asiantaeth

Yn ystod archwiliad 2010/11, er mwyn asesu a oedd y penderfyniadau gwariant yn ymddangos i fod yn cynnig gwerth am arian i drethdalwyr, edrychwyd ar y gwariant a wnaed ar staff asiantaeth ar draws yr Awdurdod, a faint o bobl oedd wedi eu cyflogi fel staff asiantaeth, staff ar secondiad a staff contractwyr. Cafodd y Cyngor drafferth yn paratoi ymateb i'n cais am wybodaeth am faint oedd yn ei wario ar staff asiantaeth oherwydd nad oedd y wybodaeth yn cael ei chasglu'n gyson gan bob gwasanaeth. Bellach mae tîm Adnoddau Dynol y Cyngor wedi creu rhestr ddrafft o asiantaethau ond mae'r ymatebion gan wasanaethau wedi bod yn anghyson neu heb ddod o gwbl.

Nid yw cyflogi staff ar sail asiantaeth / secondiad yn rhywbeth sy'n dod o dan y rheolau sefydlog ar gontractio ac mae'n aneglur pa brosesau llywodraethu sy'n bodoli ar gyfer cyflogi staff asiantaeth / secondiad. Mae'r diffiniadau ar beth yw contractwr, gweithiwr asiantaeth neu ymgynghorwyr yn wahanol ar draws y Cyngor ac mae hyn yn gwneud gwahaniaeth o ran ba broses sydd i'w dilyn. O ystyried y cyfyngiadau tynn ar nifer y staff a recriwtio yng ngoleuni'r pwysau ar gyllid, yr ymarfer gorau gyda staff asiantaeth neu secondiad yw eu bod yn dod o dan yr un mesurau rheoli cadarn a gweledd â staff parhaol.

Yn yr un modd, mae'n bosibl bod mwy o gyfle i ddefnyddio pwerau prynu sylweddol y Cyngor ar draws ei wasanaethau i sicrhau prisiau gwell drwy arbedion maint os caiff cyflogi staff asiantaeth ei reoli'n fwy caeth.

Wrth i'r gyfraith gyflogaeth ddatblygu, mae'n bwysig bod gan y Cyngor bolisiâu clir ynghylch ei delerau a'i amserlen ar gyfer cyflogi staff asiantaeth oherwydd mae'n bosibl i staff dros dro hirdymor ennill yr un hawliau â gweithwyr parhaol. Er mwyn monitro'r risg yma, mae angen i'r Cyngor casglu gwybodaeth drylwyr i wybod pwy sy'n gweithio iddo, beth y maent yn ei wneud ac ers pa hyd.

Mae'r Cyngor hefyd wedi ymchwilio i'r cyfle i sefydlu "asiantaeth

fewnol".

**Argymhelliad R9 – Dylai'r Cyngor gwblhau ei asesiad o staff asiantaeth / contractwyr / ymgynghorol cyn gynted â phosibl, ac yng ngoleuni'r wybodaeth honno dylai baratol canllawiau priodol ar gyfer sut y dylid caffael staff o'r fath yn y dyfodol.**

Er bod gwaith yr Archwilwyr Mewnol a'u hadroddiadau yn dda, mae lle i wella ar effaith gadarnhaol ac amserol argymhellion.

### Adolygiadau o gyfrifon terfynol contractau

Y prif gyfrwng ar gyfer rhoi sicrwydd annibynnol ynghylch contractau cyfalaf y Cyngor yw drwy adolygiadau presennol yr Archwilwyr Mewnol o gontractau, gyda sicrwydd pellach drwy adolygiadau contract terfynol. Pan fydd gwasanaeth yn cwblhau gwaith ar gontract, mae'n cyflwyno atodlen o'r costau gwirioneddol yn erbyn y costau a gyllidwyd i'r tîm archwilio mewnol. Mae'r Archwilwyr Mewnol yn adolygu'r atodlen ac yn trafod y canlyniadau gyda'r rheolwyr. Pob chwarter, mae'r gwasanaeth yn paratoi crynodeb o'r adolygiadau a wnaed i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio.

Mae'r adroddiad cyhoeddus hwn yn egluro pam fod contractau wedi mynd dros neu o dan eu cyllideb, ac yn rhoi cyfle i aelodau herio unrhyw faterion sy'n codi. Mae'r Archwilwyr Mewnol yn gwneud argymhellion os ydynt yn canfod unrhyw faterion yn codi gydag unrhyw un o'r adolygiadau cyfrifon terfynol. Prif gyfyngiad y system bresennol yw ei bod yn dibynnu ar ddisgwyf bod y gwasanaeth yn cau'r prosiect ac yn cyflwyno'r cyfrif terfynol i'w archwilio. Gallai hyn olygu oedi i'r Cyngor gyda nodi materion neu gyflwyno mesurau unioni. Un enghraifft yw Pwll Nofio Llandudno. Cyflwynodd y gwasanaeth y cyfrif terfynol tua 4 blynedd ar ôl i'r pwll agor gan arwain at oedi sylweddol cyn i'r archwilwyr mewnol gael cyfle i adolygu'r prosiect. Pan ddigwyddodd yr adolygiad yn y diwedd, ni allai'r Archwilwyr Mewnol gael esboniadau llawn ar y gorwariant oherwydd bod gymaint o'r staff perthnasol wedi gadael y Cyngor.

**Argymhelliad R10 – Dylai'r Cyngor ddiwygio ei ddull o gyflawni adolygiadau Archwilio Mewnol, a chytuno ar amserlen cyn i gontract ddechrau. Gyda phrosiectau mwy, dylai'r Archwilwyr Mewnol ystyried adolygiadau "ar ganol" tra bo'r gwaith ar ei ganol i nodi unrhyw risgiau a phroblemau tra bod gan y Cyngor gyfle i'w cywiro. Effeithiolrwydd yr archwilwyr mewnol**

Mae'r adroddiadau archwilio mewnol, gan gynnwys rhai y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn, o ansawdd da ac yn ddigon craff gyda dealltwriaeth dda o fanylion. Mae'r adroddiadau'n egluro digwyddiadau ac yn gwneud argymhellion penodol i fynd i'r afael â gwendidau neilltuol ond gallent roi mwy o sylw i faterion strategol ac i asesu'r pethau sydd wrth wraidd digwyddiadau.

Mae unrhyw oedi gyda chwblhau a chytuno ar adroddiadau'r archwilwyr mewnol yn golygu oedi o ran yr hyn y gall y Cyngor ei ddysgu a gwella arno.

**Argymhelliad R11 – Dylai'r Archwilwyr Mewnol a Rheolwyr gytuno ar amserlen resymol ar gyfer ymateb i ofynion archwilio. Dylid adrodd unrhyw oedi i'r Pwyllgor Archwilio fel rhan o'r dangosyddion perfformiad chwarterol.**

**Archwilwyr Mewnol a'r Pwyllgor Archwilio**

Mae cyfle i'r Archwilwyr Mewnol a'r Pwyllgor Archwilio weithio'n fwy effeithiol gyda'i gilydd a chyfrannu at effaith gadarnhaol gwaith ac adroddiadau'r Archwilwyr Mewnol. Mae nifer fach o bapurau crynodeb yr ydym wedi yn ceisio annog yr Archwilwyr Mewnol i'w cynhyrchu, ac a fyddai yn ein profiad ni gyda sefydliadau eraill yn gwella effaith y gwaith da a wneir ganddynt. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Crynodebau o'r holl archwiliadau a gwblhawyd yn ystod y chwarter diwethaf (wedi'i weithredu ers Tachwedd 2011)
- System i dracio argymhellion – crynodeb o'r holl argymhellion blaenoriaeth uchel sy'n dal i fod heb eu gweithredu
- Adroddiadau sy'n arwain at sgôr 'anfodhaol' a roddir gerbron y pwyllgor archwilio'n llawn, gyda swyddogion yn bresennol i ateb cwestiynau ac i egluro sut fydd y sefyllfa'n cael ei chywiro.
- Blaenraglen waith glir ac adrodd unrhyw faterion sy'n codi.

**Argymhelliad R12 – Dylai'r Cyngor adolygu a gloyi'r rhaglen waith a'r papurau a gyflwynir i'r**

**Pwyllgor Archwilio.**

Er bod gwaith yr Archwilwyr Mewnol a'u hadroddiadau yn dda, mae lle i wella ar effaith gadarnhaol ac amserol argymhellion.

Mae'r Archwilwyr Mewnol yn cyflawni amryw o archwiliadau pob blwyddyn ac mae'r rhan fwyaf yn arwain at lefelau sicrwydd uwch na'r rhaglen yma ar gcontractio. Fodd bynnag, mae saith archwiliad a sgoriwyd yn "anfodddhaol" yn llawer mwy nag y byddem yn disgwyl i'w weld ac yn dangos bod angen i'r Cyngor wneud rhywbeth ynghylch hyn.

Maes	Sicrwydd archwilio mewnol	Dyddiad o flaen y Pwyllgor Archwilio	Cyfnod y sonnir amdano yn yr adroddiad	Argymhellion	Sylwadau KPMG
Cynnal a chadw adeiladau - Rhagfyr 2011	Anfodddhaol	Chwefror 2012	2010/11	26	Mae'r adroddiad yn cofnodi nifer fawr o faterion yn codi, gan gynnwys rhai gweithredol, cydymffurfio ac ariannol gyda gwendidau ym mhob un o gamau'r broses gcontractio a chaffael.
Gweithdrefnau cyn-gcontractio a thendro. Priffyrdd & Seilwaith – Ionawr 2011	Anfodddhaol		2008 tan 2011	44	Mae'r archwilwyr mewnol wedi nodi nifer fawr iawn o wendidau, ar draws sampl o bedwar contract gan gynnwys Pont Reilffordd Maesdu.
Pwll nofio Llandudno – cyfrif terfynol Medi 2011	Anfodddhaol	Chwefror 2012	2006 tan 2011	6	Yn bennaf, edrychodd yr adroddiad ar sut oedd y Cyngor yn ymdrin â chyflwyno'r costau terfynol. Roedd y farn anfodddhaol yn seiliedig ar broblemau difrifol gyda rheoli'r contract drwy gydol y prosiect hwn.
Ysgol y Goedwig – cyfrif terfynol Tachwedd 2011	Anfodddhaol	Chwefror 2012	2008 tan 2011	4	Mae'r archwilwyr mewnol wedi nodi pryderon difrifol gyda rheoli'r contract ar gyfer y cynllun hwn.
Pont Reilffordd Maesdu – cyfrif terfynol Mai 2010	Anfodddhaol	Gorffennaf 2011	2008 tan 2010	13	Dadansoddiad da o'r hyn aeth o'i le ar wahanol gamau yn ystod y prosiect, ond heb ganfod pam yn union aeth pethau o'i le. Penderfynwyd cadw'r adroddiad yn fewnol yn y Cyngor oherwydd bod hawliadau'n cael eu negodi gyda'r ymgynghorwyr peirianyddol a'r prif gcontractwr. Efallai fod y cyfuniad hwn wedi atal y Cyngor rhag gallu rhannu'r gwersi'n ehangach ar draws y gwasanaethau.
Pont Reilffordd Maesdu – adroddiad ôl-ddilyn, Gorffennaf 2011	Bodddhaol	Gorffennaf 2011	2010/11	6 ar ôl	7 o'r 13 o argymhellion wedi eu gweithredu
Bryn Elian – gwasanaeth TG a reolir a gwaredu asedau	Anfodddhaol	Chwefror 2012	Gorff 2010 tan Medi 2011	5	Methu â chydymffurfio â chyfraith gaffael yr Undeb Ewropeaidd a Rheolau Sefydlog y Cyngor ar Gcontractio.
Ffonau symudol	Anfodddhaol	Chwefror 2012	2010/11	25	Mae'r problemau'n ymwneud yn bennaf â defnyddio a chasglu incwm, ond hefyd yn cynnwys diffyg manylion am y contract gyda'r cyflenwr.
Adolygiad o gcontract Canolfan Ddigidyddiaid Parc Eirias	Da	Chwefror 2012	Chwe 2011 tan Hyd 2011	3	Mân bwyntiau'n unig wedi eu codi.

**Atodiad –  
astudiaethau achos ar  
gontractio**

**Cyflawnodd y Cyngor brosiect i adnewyddu pont beryglus lle achoswyd gorwariant o tua £1.3 miliwn.**

**Mae dau achos cyfreithiol ar y gweill a allai gynyddu neu leihau'r gorwariant hwn.**


### Cefndir

Yn 2008/09 a 2009/10, cyflwynodd Adain Pontydd a Strwythurau'r Cyngor achosion busnes am gyllid i gryfhau Pont Maesdu yn Llandudno. Penodwyd WS Atkins fel yr ymgynghorwyr dylunio drwy Gytundeb Fframwaith Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru ar gyfer Gwasanaethau Ymgynghori. Ym mis Medi 2009 cwblhawyd tendr agored i godi'r bont newydd a phenodwyd Dawnus Construction Limited fel y cwmni buddugol. Yn unol ag amserlen dynn, gyda'r bwriad o agor y bont newydd yn llawn i draffig cyn gynted â phosibl a chwrdd ag amserlen defnyddio trac Network Rail, dechreuodd y contractwr weithio ar y safle ar 19 Hydref 2009, gan anelu at offen ar 30 Mehefin 2010. Rhedodd y prosiect drosodd o ddeg wythnos ond llwyddwyd i agor y bont yn llwyddiannus i draffig.

### Gorwariant

Yr amcangost wreiddiol yn 2008/09 oedd £1.1m yn unol â'r achos busnes gwreiddiol. Rhwng cyflwyno a chymeradwyo'r achos busnes hwn a chwblhau'r bont yn derfynol, roedd y gost derfynol wedi cynyddu i £3.9m. Fodd bynnag, mae'n fwy cywir disgrifio'r gorwariant fel y gwahaniaeth rhwng yr amcangost pan wnaed y penderfyniad terfynol (£2.6m) a'r amcan-ffigur diweddaraf o'r gost derfynol o £3.9m – gorwariant o tua £1.3m. Mae'r gost derfynol yn parhau i fod yn un dros dro wrth i drafodaethau negodi a chyflafareddu barhau gyda'r contractwr a'r cwmni ymgynghori mewn ymgais i leihau'r gost derfynol i'r Cyngor. Ar gyfer y broses gyflafareddu, bu'n rhaid i'r Cyngor benodi twrneiod allanol ac nid yw costau'r rhain wedi eu cynnwys yn yr amcangyfrifon.

Yn ogystal â gorwario ar yr ochr adeiladu a'r ymgynghorwyr dylunio, roedd y pris gwreiddiol wedi gadael nifer o eitemau allan – yn benodol y costau oedd yn gysylltiedig â gwyro cyfleustodau, darparu bws gwennol, ffioedd a chostau i Network Rail. Mae nifer o wasanaethau ychwanegol yng nghyswllt y gwaith adeiladu'n parhau i fod yn gynhennus – fel symud peth o'r ysbail o'r safle. Nodir effaith y prif orwariant ar y dudalen nesaf.




# Pont Reilffordd Maesdu – darlun o'r costau

Mae'r diagram hwn yn dangos y gwahaniaeth cost rhwng yr achos busnes gwreiddiol o £1.1m oedd wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor, a'r amcan-wariant diweddaraf o £3.9m.

Mae hawliadau wedi eu dwyn gan ac yn erbyn y Cyngor a, gan ddibynnu ar eu canlyniad, gallai'r gost derfynol fod rhwng £3.7m a £4.2m.

(Nid yw'r costau hyn yn cynnwys y costau cyfreithiol o amddiffyn a dwyn yr hawliadau)



Roedd swyddogion y Cyngor wedi rhoi amcangost o £1.1m ar gyfer y bont newydd ac wedi ei hymgorffori yn y rhaglen gyfalaf.

Aeth peirianwyr allanol ati i baratoi dyluniadau, cynlluniau a chostau mwy manwl, gan gynyddu'r gost ddisgwyliedig i £2.25m

O ganlyniad i'r broses tendro cystadleuol, aeth y gost ddisgwyliedig i fyny i £2.6m

Cam adeiladu – gwreiddwyd nifer o risgiau annisgwyl, a chododd nifer o gostau y dylid bod wedi cyllidebu ar eu cyfer. Mewn anghydfod gyda'r prif gontractwr ynghylch rhai costau, a gyda'r peirianwyr ymgynghorol ynghylch y costau dylunio.



**Cyflawnodd y Cyngor brosiect i adnewyddu pont beryglus lle achoswyd gorwariant o £1.3 miliwn.**

### **Rheoli'r Gyllideb ac adrodd ar amrywiadau cost**

Mae'r Cyngor wedi bod yn monitro'r cynnydd yn y costau ac wedi gweithredu'n ddioed i ariannu'r gorwariant drwy drosglwyddo cyllid o ffynonellau eraill. Mae adrodd i'r aelodau dros y cyfnod hwn wedi canolbwyntio'n gryf iawn ar yr ochr ariannu. Mae hyn yn dangos bod y Cyngor yn ymwybodol o'i wariant cyffredinol ac nad oedd y prosiect byth mewn perygl o 'redeg allan o arian'. Prif effaith hyn yw y bu'n rhaid gohirio neu ganslo prosiectau cyfalaf eraill fel y rhaglen i adnewyddu goleuadau stryd.

Yn ystod y prosiect, cafodd y gyllideb ei monitro gan y Gweithgor Cyfalaf a'r ymrwmiadau eu monitro gan y tîm prosiect drwy gydol y gwaith. Fodd bynnag mae'n glir bod rhai o'r diffygion a adroddwyd gan yr Archwilwyr Mewnol yn rhai a ddigwyddodd oherwydd diffyg monitro gweithgareddau a chostau o ddydd i ddydd.

Un o'r risgiau oedd yn poeni swyddogion oedd rheoli'r hawliadau yn erbyn a chan y Cyngor. Er mwyn rheoli'r risg, cadwodd y Cyngor lawer o'r manylion am y costau, y gor-redeg a'r rhesymau'n gyfrinachol – a rhag yr aelodau hefyd. Cyflwynwyd Adroddiad yr Archwilwyr Mewnol ym mis Mai 2010 i'r Prif Weithredwr (a oedd wedi gofyn am adolygiad), i'r Cyfarwyddwyr Corfforol, y Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol, Cadeiryddion y Pwyllgor Archwilio a'r Prif Bwyllgor Craffu ac i'r aelod sy'n gyfrifol am y portffolio Seilwaith yn unol â phrotocolau safonol ar adroddiadau Archwilio, ond ni chafodd ei ryddhau i'r Pwyllgor Archwilio hyd nes y cafwyd adroddiad ôl-ddilyn ym mis Gorffennaf 2011. Rydym yn cydnabod bod efallai angen cadw rhai manylion yn gyfrinachol i ddiogelu'r safiad negodi, ond mae angen i'r Cyngor daro cydbwysedd i ddiweddarau aelodau a threthdalwyr. Yn yr enghraifft hon, roedd y cyfyngiadau ar wybodaeth yn golygu bod llai o gyfle i aelodau gadw trosolwg ar y prosiect.

**Argymhelliad R13 – Wrth wynebu materion cynhennus, mae angen i'r Cyngor asesu'n ofalus y lefel wybodaeth y mae'n ei rhyddhau i aelodau a'r cyhoedd, gan sicrhau ei fod yn taro'r cydbwysedd iawn ac yn rhoi cyfle i'r aelodau gael trosolwg a herio. Gyda phrosiectau lle mae'r gwaith yn gor-redeg, dylai'r adroddiadau i aelodau gynnwys dadansoddiad o'r gost ddiwygiedig a'r amrywiadau cost yn ogystal ag amlinellu sut y bwriedir ariannu unrhyw or-redeg.**

Ers cwblhau prosiect y bont, mae llawer o argymhellion yr archwilwyr mewnol wedi cael eu gweithredu – cynigiwyd gwneud gwelliannau sylweddol i brosesau rheoli prosiectau a monitro costau. Gellir yn awr nodi unrhyw gost sy'n gor-redeg yn well – er enghraifft, cymerir camau i gysoni prosiect yn llawn pan fo'r costau a wariwyd yn cyrraedd 70% o'r cyfanswm i sicrhau bod unrhyw amrywiadau negyddol yn cael eu nodi.

### **Monitro contractwyr**

Mewn un achos mae contractwyr wedi cyflwyno hawliad i'r Cyngor am y gost o waredu deunyddiau gwastraff y tu allan i sgôp y contract gwreiddiol am gost o £100k. Er bod dadlau ynghylch hyn ac nid yw'r Cyngor wedi talu eto, gallai monitro mwy cyson a gwerthuso'r amrywiadau rhwng elfennau'r contract fod wedi atal y broblem yma rhag codi.

**Argymhelliad R14 – Lle mae contractwyr yn cynnig amrywiad sylweddol mewn manylion neu ddull, dylai'r Cyngor sicrhau bod uwchswyddogion digon profiadol yn adolygu'r cynnig ymlaen llaw a bod pob ymdrech yn cael ei gwneud i herio'r amrywiad cost drwy edrych ar opsiynau eraill a sicrhau bod y gwaith ychwanegol yn hanfodol ac wedi'i awdurdodi.**

**Cyflawnodd y Cyngor brosiect i adnewyddu pont beryglus lle achoswyd gorwariant o bron i £2 filiwn.**

### Gwerth am Arian

Defnyddiodd y Cyngor gontract oriau i ddylunio'r bont. Mae hyn yn golygu bod y Cyngor wedi dibynnu ar yr ymgynghorwyr i gyflawni'r gwaith yn y ffordd fwyaf effeithlon, a bod y risgiau o gyflawni felly'n aros gyda'r Cyngor. Dylai fod wedi bod yn bosibl caffael dyluniad ar sail cost benodol, a fyddai wedyn wedi trosglwyddo'r risg i'r ymgynghorwyr. Roedd y contract oriau'n rhan o raglen Gaffael Gogledd Cymru ac yn ymddangos i fod wedi bod yn gontract cyfreithiol, ond mae maint y costau a filiwyd a'r problemau a gododd yn ystod y cam adeiladu'n awgrymu na lwyddodd i roi gwerth am arian. Yn dilyn adolygiad yr archwilwyr mewnol o'r prosiect, cafwyd bod rheolwr prosiect y Cyngor wedi cymeradwyo gwaith ychwanegol gan yr ymgynghorwyr, ar sail amser a achoswyd, oedd yn mynd y tu allan i'r contract gwreiddiol, gan awgrymu gwendidau yn y ffordd y cafodd y contract ei reoli gan y Cyngor. Er y derbyniwyd fod y contract hwn wedi'i gynnig gan y fframwaith caffael ac y byddai wedi arbed arian yn ystod y cam tendro gwreiddiol, mae gwersi pwysig y gallai'r Cyngor eu dysgu o ran rheoli contractau.

- **Argymhelliad R15 – mae'n bosibl nad yw contractau sy'n cael eu cyd-gaffael yn cynnig y gwerth gorau'n awtomatig yn yr amgylchiadau penodol a dylid barnu pob un ar ei haeddiant;**
- **Argymhelliad R16 – dylai uwch-swyddogion adolygu a goruchwyllo a herio contractau mawr. Ni ddylid eu dirprwyo i swyddogion cymharol ddibrofiad neu is.**
- **Sicrhau rheolaeth well drwy'r broses gontractio – gweler Argymhelliad R14**

### Dadansoddiad o wreiddyn y broblem

Mae gwaith yr Archwilwyr Mewnol wedi nodi nifer o resymau unigol dros y gorwariant ar brosiect y Bont – lle oedd yr amcangost wreiddiol a gymeradwywyd gan aelodau'n annigonol, lle na chafodd eitemau penodol eu cynnwys yn yr amcangostau a lle chafodd contractau eu rhoi naill ar sail dulliau codi tâl anaddas neu lle na chafodd gontractwyr eu goruchwyllo'n foddhaol.

Fodd bynnag, nid yw'r adroddiadau'n egluro pam fod hyn wedi digwydd, nac ychwaith sut y bwriedir ei atal rhag digwydd yn y dyfodol. Mae angen i'r Cyngor fod yn ffyddiog y caiff prosiectau yn y dyfodol eu rheoli mewn ffordd sy'n atal costau rhag cynyddu'n ormodol.

Ar hyn o bryd, mae prosiectau mawr yn cael eu monitro gan dimau prosiect a swyddogion o'r adran sy'n gyfrifol ond ni chyflawnir archwiliad cost manwl hyd nes y daw'r contract i ben.

Yn ein barn ni, a chredwn fod rheolwyr yn cytuno, digwyddodd y gor-reddeg oherwydd bod y Cyngor wedi dirprwyo prosiect eithriadol gymhleth i staff dibrofiad, heb ddigon o oruchwyliaeth gan staff uwch.

**Argymhelliad R18 – Dylai'r Cyngor ystyried beth oedd gwreiddyn y gorwariant yn fanwl, o bersbectif rheoli prosiect a phersbectif monitro costau. Dylai'r Cyngor yna baratoi cynllun manwl yn nodi beth fydd yn newid i sicrhau bod prosiectau cyfalaf mawr yn cael eu monitro a'u gweithredu'n well yn y dyfodol.**

**Argymhelliad R19 – Gyda phrosiectau mawr iawn, dylai swyddog digon uchel a phrofiadol fod yn gyfrifol am y prosiect. Dylai'r Cyngor ystyried, achos wrth achos, a oes ganddo'r adnoddau mewnol angenrheidiol i reoli prosiectau mawr a chymhleth. Dylid ystyried a oes unrhyw gyfle i rannu sgiliau ac adnoddau gyda chynghorau cyfagos.**

Rydym wedi edrych ar waith yr archwilwyr mewnol yng nghyswllt dau brosiect cyfalaf penodol.

Mae'r archwilwyr mewnol wedi nodi pwyntiau dysgu pwysig sydd angen eu cyflwyno ar draws holl wasanaethau'r Cyngor.

Rydym wedi trafod dau brosiect cyfalaf mawr penodol, Ysgol y Goedwig a phwll nofio Llandudno, gyda'r Archwilwyr Mewnol ac wedi cael gafael ar gopïau o'u hadroddiadau ar y prosiectau hyn. Dewiswyd y prosiectau hyn drwy i etholwr lleol dynnu ein sylw atynt. Ni wnaethom unrhyw waith ein hunain yn y cyswllt hwn er mwyn lleihau'r gost i'r trethdalwr.

Mae'r ddau brosiect yn ymwneud â chontractau'n mynd yn ôl cryn dipyn. Ers hynny a'r adroddiadau gan yr archwilwyr mewnol, mae'r Cyngor wedi cymryd camau i hyfforddi staff yn well mewn rheoli prosiectau, ond mae gwerth o hyd inni mewn defnyddio'r adroddiadau hyn fel enghreifftiau, oherwydd mae problemau tebyg wedi codi gyda phrosiectau mwy diweddar, sy'n golygu bod y dysgu'n dal i fod yn berthnasol.

### Ysgol y Goedwig

Prosiect oedd hwn i ailddatblygu cyn adeilad Byd y Deinosoriaid ym Mharc Eirias, Bae Colwyn, yn ganolfan addysgol. Cafwyd cyllid yn bennaf drwy'r Grant Cyfalaf Blynnyddoedd Cynnar gan Lywodraeth Cymru a chafodd gynllun y prosiect ei gymeradwyo'n ffurfiol gan yr Uwch Dîm Gweithredol ar 14 Hydref 2008.

Yna cafwyd oedi sylweddol gyda chyflwyno'r dogfennau tendro cyn cyhoeddi'r gwahoddiad i dendro ar 7 Mawrth 2009 gyda dyddiad cau i ddychwelyd tendrau erbyn 10 Mawrth 2009. Ni fyddai'r amser byr iawn hwn wedi rhoi digon o amser i gontractwyr baratoi eu bidiau'n ddigon manwl i leihau'r risg o or-redeg. Yn wir, mae'n debyg iddo eithrio rhai contractwyr a ddewisodd beidio â bidio o dan yr amodau hyn; neu fentro bidiau rhy ddrud gan gwmnïau a oedd am sicrhau digon o arian wrth gefn rhag ofn i rywbeth annisgwyl godi. Mae'r archwilwyr mewnol wedi tynnu sylw at y ffaith na chafodd y rheolau sefydlog ar gontractio, lle mae angen i uwch-swyddog gymeradwyo contract o'r maint hwn, eu dilyn cyn i'r gwaith ddechrau ar y safle. Nododd waith yr archwilwyr mewnol hefyd nifer o fethiannau pwysig eraill, gan gynnwys gor-daliad o fwy na £20k i gontractwr (na allwn ei adennill hyd nes y cytunir ar yr holl gyfrifon terfynol cysylltiedig),

methu â dilyn y drefn briodol wrth i'r contract or-redeg, methu â sicrhau bod deunyddiau a dalwyd amdanynt gan y Cyngor wedi eu storio'n briodol, yn hytrach cawsant eu storio o bell gan y contractwr a pheth tystiolaeth o daliadau'n cael eu cyflymu i'r contractwr cyn i'r gwaith gael ei wneud er mwyn cwrdd â dyddiadau cau'r grant ar wneud taliadau – brys a achoswyd heb os gan yr oedi gyda chyhoeddi'r dogfennau tendr yn y lle cyntaf.

### Casgliadau

Yn ddi-os roedd yr amgylchedd rheoli gwan wedi creu amodau lle nad oedd y Cyngor yn debygol o sicrhau'r gwerth gorau am arian o'r gwaith hwn, gyda thendr yn cael ei rhuthro a lle na chafodd gostau parhaus eu hadolygu'n drylwyr. Efallai fod rôl i'r archwilwyr mewnol gyda helpu i fonitro costau parhaus ac asesu manyleb contract fel adolygiad 'byw' yn hytrach nag ar ôl y digwyddiad mewn rhai achosion. Hefyd, o ganlyniad i fesurau rheoli llac a methu â dilyn y prosesau neu'r rheolau sefydlog ar gontractio, cododd gyfle i dwyll gael ei chyflawni yn erbyn y Cyngor.

Rydym wedi edrych ar waith yr archwilwyr mewnol yng nghyswllt dau brosiect cyfalaf penodol.

Mae'r archwilwyr mewnol wedi nodi pwyntiau dysgu pwysig sydd angen eu cyflwyno ar draws holl wasanaethau'r Cyngor.

## Pwll nofio Llandudno

Dechreuodd y prosiect hwn yn 2006 felly mae darganfyddiadau adroddiad yr archwilwyr mewnol (a gwblhawyd yn 2011) bellach fwy neu lai'n hanesyddol. Er hynny, mae adroddiad yr archwilwyr mewnol yn sgorio'r gwaith o reoli'r contract fel 'anfodhaol' ac mae gwersi pwysig i'w dysgu i'r Cyngor.

Mae'r oedi gyda chwblhau'r archwiliad yn ychwanegu at yr anhawster o wneud gwelliannau prydlon. Ni ddylid gadael i hyn ddigwydd eto yn y dyfodol (**Gweler Argymhelliad R11**).

Y gost gymeradwy wreiddiol ar gyfer y pwll nofio oedd £5,014,745 ond roedd y swm terfynol yn £6,254,000, cynnydd o £1,239,255 neu 25%. Fodd bynnag, hawliodd y contractor swm o £6,903,957 a fyddai wedi bod yn gynydd o 37%. O ganlyniad i negodi masnachol cadarn gan y Cyngor yng nghyfnod olaf y rhaglen hon, llwyddwyd i leihau'r gorwariant – drwy amddiffyn 'wythnosau oedi' er enghraifft – ond gallai rheolaeth well fod wedi lleihau'r bil terfynol ymhellach.

- Achosodd y Cyngor (neu o leiaf bu iddo gyfaddef) oedi i'r contractwr gyda darparu gwybodaeth gan olygu bod y contractwr wedi hawlio am y costau ychwanegol a achoswyd iddynt o ganlyniad i'r oedi hwn. Daeth hyn i tua £150,000 o wariant ychwanegol y gellid bod wedi'i osgoi.
- Cyflwynodd y Cyngor dystysgrif cwblhau ymarferol gyda nifer sylweddol o ddiffygion na chawsant eu datrys sydd, yn ymarferol, wedi gwneud y gwaith o orfodi datrys y diffygion hyn heb gost i'r Cyngor yn ddiangen o anodd.
- Cytunodd y Cyngor i amrywiol amrywiadau i'r contract, gwerth £424,418 i gyd, heb ddilyn y broses briodol, gan ychwanegu at y gost derfynol.
- Archebwyd gormod o ddeunydd "preprufe" fel rhan o'r contract ac ni chafodd ei ddefnyddio. Costiodd hyn £11,772. Holodd y Cyngor ynghylch ei ddychwelyd i'r cyflenwr ond ni allai ei dderbyn a phenderfynodd y Cyngor yna ei symud oddi ar y sale 'ar egwyddor' fel na allai'r contractor ei gymryd a'i

ddefnyddio yn rhywle arall. Y cwbl a wnaeth y Cyngor wedyn oedd ei storio, heb unrhyw dystiolaeth o ymdrechion i'w werthu na'i ddefnyddio ar brosiectau eraill. Aeth dros ei ddyddiad defnyddio a chafodd yna ei sgrapio.

## Casgliadau

Yn yr un modd fel gyda phrosiect Ysgol y Goedwig uchod, mae rheolaeth barhaus wael o'r contract a'r amrywiadau a diffyg goruchwyliaeth drylwyr wedi arwain at achosi costau i'r Cyngor y gellid bod wedi eu hosgoi gyda phrosesau a rheolaeth well.

## Dysgu o waith yr archwilwyr mewnol

Mae'n glir bod yr archwilwyr mewnol yn gallu nodi gwersi pwysig pan adolygir gwasanaeth neu brosiect ganddynt. Yr hyn nad yw'r Cyngor yn ei wneud yn dda yw gafael yn y gwersi hyn a'u rhannu ar draws ei holl wasanaethau. Er enghraifft, dywedodd PMAS wrth y Pwyllgor Archwilio yn Chwefror 2012 fod y gwasanaeth wrthi'n drafftio canllawiau ar reoli contractau mewn ymateb i argymhellion gan yr archwilwyr mewnol. Nid oedd y gwasanaeth wedi ymgynghori ag adrannau eraill yn y Cyngor a allai fod â chanllawiau addas yn barod.

Mae'r Cyngor wedi cyflwyno Fforwm Rheoli Prosiectau & Rhaglenni sy'n cwrdd pob chwarter ac sy'n cynnwys nifer fawr o reolwyr ar draws pob gwasanaeth. Mae'r pynciau wedi cynnwys Hyfforddiant ar y Rheolau Sefydlog ar Contractio, Risgiau Allweddol wrth Dendro, Gwersi a Ddysgir o brosiectau llwyddiannus. Mae'r fforwm hefyd yn cynnig presenoldeb cryf i'r Tîm Caffael Canolog a'r Archwilwyr Mewnol, gan helpu i ysgogi arferion gwell. Mae gan y fforwm botensial i gael effaith gadarnhaol dros amser ar berfformiad y Cyngor ar reoli contractau.

**Argymhelliad R20 – Dylai'r Cyngor ddatblygu ffordd o rannu arferion gorau ar draws ei wasanaethau, i hyrwyddo cysondeb a chydymffurfio.**

**Atodiad –  
cwestiynau gan y  
cyhoedd**

Rydym wedi rhoi atebion ar y tudalennau canlynol i gwestiynau penodol a ofynnwyd gan un etholwr a oedd â hawl i'w gofyn.

### Rhagarweiniad

O dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, mae gan etholwyr cofrestredig nifer o hawliau i archwilio a herio cyfrifon eu cyngor lleol. Mae un aelod o'r cyhoedd wedi codi nifer o gwestiynau o ganlyniad i archwilio llyfrau a chofnodion y cyngor ym mlynnyddoedd archwilio 2009/10 a 2010/11. Ym mhob achos gofynnodd i'r archwilwyd a benodwyd ystyried cyhoeddi adroddiad ar unwaith er lles y cyhoedd.

Mae adroddiad lles y cyhoedd yn offeryn pwerus sydd ar gael i'r archwilwyr i dynnu sylw at wendidau sylweddol gan awdurdod lleol. Mae angen llawer iawn o waith archwilio i'w baratoi, a gelwir cyfarfod llawn o'r Cyngor yn benodol i ystyried argymhellion yr archwilwyr cyn i'r adroddiad gael ei hysbysebu yn y wasg leol. Mae'r gost o gynhyrchu adroddiad o'r fath fel rheol yn uchel ac yn disgyn yn uniongyrchol ar ysgwyddau trethdalwyr lleol.

Rydym wedi ystyried y ceisiadau hyn yn ofalus o ystyried nifer ac effaith ariannol y materion dan sylw a phenderfynwyd peidio â chyhoeddi adroddiad lles y cyhoedd. Y rhesymau yw:

- Ymdriniwyd â'r rhan fwyaf o bryderon yr etholwr fel mater o gofnod cyhoeddus oherwydd y cawsant eu copïo ar gyfer Pwyllgor Archwilio'r Cyngor.
- Ymdriniwyd â'r cwestiynau ynghylch prosiect Pont Maesdu a chaffael contractwyr, o ran prosiectau penodol fel pwll nofio Llandudno a dewis contractwyr llai, gan adran archwilwyr mewnol y Cyngor. Rydym wedi adolygu'r gwaith hwn ac wedi cynnwys unrhyw sylwadau ychwanegol yn y ddogfen hon.
- Mae gan y Cyngor nifer fawr o gamau gweithredu i'w darparu o ganlyniad i adroddiadau'r archwilwyr mewnol, a ddylai helpu i wneud gwelliannau. Bydd yr Archwilwyr Mewnol hefyd yn cyflawni rhaglen o ôl-archwiliadau i fonitro gweithrediad y camau hyn.

Penderfynwyd dibynnu ar yr archwilwyr mewnol a chyfuno'r gwaith hwn â'n gwaith arferol o dan y mesur Llywodraeth Leol er mwyn lleihau'r gost i'r trethdalwr. Fodd bynnag, rhaid inni ymateb i bob pwynt a godwyd gan yr etholwr er mwyn cau ein harchwiliad am bob blwyddyn ac felly cyflawnir ein cyfrifoldeb i wneud hyn drwy'r adroddiad hwn.

### Casgliadau

Ar y tudalennau canlynol, crynhown unrhyw gwestiynau a godwyd na roddir sylw iddynt mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn ond tynnwn sylw at y ffaith bod yr etholwr lleol wedi codi cwestiynau penodol a pherthnasol ynghylch y bont, y pwll nofio, Ysgol y Goedwig a dewis contractwyr bach, sydd i gyd yn cael sylw ym mhrif gorff yr adroddiad hwn.

Mae'r dudalen hon yn gosod allan yr argymhellion allweddol sy'n codi o'n gwaith ar y gorwariant ar bont Maesdu.

## Cwestiwn a datrysiad

### Y mater – y taliadau parhaus a wnaed i Atkins yn 2010/11 a chostau achosion dyfarnu cyfreithiol

Gofynnodd yr etholwr ynghylch y taliadau o £20k a wnaed yn 2010/11 i Atkins, yr ymgynghorwyr dylunio ar gyfer y bont, ac a oedd y rhain yn briodol o ystyried cyfanswm y costau a achoswyd a'r problemau a gafwyd gyda'r dyluniad. Deallwn y tybiwyd fod y taliadau hyn yn briodol o dan y contract a bod y rhan fwyaf yn ymwneud â gwerthusiadau ôl-brosiect a gwaith cwblhau y gellid eu disgwyl gyda phrosiect o'r maint hwn.

Gallwn gadarnhau bod y Cyngor wedi gofyn am gyngor cyfreithiol gan dwrneiod allanol ar y sefyllfa gydag Atkins. Byddai'n ymddangos bod hyn yn benderfyniad busnes rhesymol ac arferol.

Gofynnodd yr etholwr hefyd inni wneud sylw ar fwriadau'r Cyngor ynghylch achos cyfreithiol a chanlyniad hwnnw (pe bai'n digwydd). Ni chredwn fod y cwestiynau hyn o fewn ein cyfrifoldebau a ganiateir oherwydd eu bod yng nghyswllt polisi'r cyngor. Os yw'r etholwr, neu unrhyw aelod arall o'r cyhoedd, yn dymuno cael cyswllt â'r Cyngor ar y mater hwn, y ffordd orau o wneud hynny fyddai drwy gyswllt uniongyrchol neu gysylltu â'u haelod ward.

### Argymhelliad – Nid oes unrhyw argymhellion pellach i'w gwneud o ganlyniad i'r cwestiynau hyn.

### Y mater – gor-reddeg o ran cost ar brosiectau cyfalaf.

Gofynnodd yr etholwr i'r archwilwyr a benodwyd gyhoeddi adroddiad lles y cyhoedd ar y gorwariant ar bwll nofio Llandudno, Ysgol y Goedwig, Theatr Llandudno a Glanfa'r Harbwr.

Rydym wedi ystyried y pwll nofio a'r ysgol yn llawn uchod.

Yn achos y theatr, deallwn o adroddiad drafft yr Archwilwyr Mewnol fod yr amrywiad cost wedi digwydd o ganlyniad i newid mewn sgôp i wella'r dyluniad, iddo gael ei gymeradwyo'n briodol ac yn wir y gwnaed arbedion pan werthuswyd y prosiect terfynol.

Mae Glanfa'r Harbwr, mewn gwirionedd, yn senario wahanol oherwydd bod costau uwch wedi eu nodi cyn i'r prosiect ddechrau a phris tendr uwch wedi'i ystyried. O ganlyniad, gall Aelodau werthuso'r opsiynau gwario, ac un o'r rhain yw rhoi'r gorau i'r prosiect, cyn ymrwmo'r cyllid. Mae'n amlwg yn wahanol iawn i sefyllfa lle mae costau'n cynyddu ar ganol prosiect. Ym mhob achos, rydym yn disgwyl i'r Cyngor edrych yn ofalus ar yr amcangostau, sicrhau y cawsant eu pennu'n gywir a'u herio ac, felly, nid yw cynnydd pellach yn debygol wrth i brosiectau symud ymlaen.

**Argymhelliad R21 – Dylai'r Cyngor gyfarwyddo uwch-swyddogion perthnasol i adolygu'r cynlluniau ar gyfer y lanfa newydd cyn i'r gwaith ddechrau. Y nod fyddai lleihau'r risg o gynnydd pellach i gost neu sgôp yn ystod y gwaith adeiladu. Efallai y gellir cyflwyno'r cam herio pellach hwn gyda phob prosiect cyfalaf mawr (dros £100k dyweder). Dylai'r Cyngor hefyd benodi uwch-swyddog priodol i fonitro costau a herio'n barhaus os yw'r prosiect yn mynd yn ei flaen.**



*cutting through complexity™*

© 2012 KPMG LLP. Mae KPMG LLP yn bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn y DU, yn isgwmni i KPMG Europe LLP ac yn aelod o rwydwaith KPMG o gwmnïau annibynnol ac yn aelod cyswllt o KPMG International Cooperative, endid Swistirol. Cedwir pob hawl. Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig.